



## PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG

COFNODION Y CYFARFOD O BELL A GYNHALIWYD DROS MICROSOFT TEAMS AR DDYDD MAWRTH, 29 MEHEFIN 2021 AM 5.30PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd T. Parry - Cadeirydd  
Cynghorydd C. Andrews - Is-gadeirydd

Cynghorwyr:

E.M. Aldworth, P. J. Bevan, A. Collis, W. David, A. Farina-Childs, Ms J. Gale, B. Miles, J. Roberts a J. Simmonds.

R. Whiting (Aelod Cabinet dros Ddysgu a Hamdden).

Ynghyd a:

Swyddogion: R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg), P. Warren (Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion), S. Ellis (Arweinydd Cynhwysiant ac ADY), J. Southcombe (Rheolwr Cyllid), J. Kent (Gwasanaeth Cyflawni Addysg), E. Pryce (Gwasanaeth Cyflawni Addysg), M. Jacques (Swyddog Craffu), S. Hughes (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) a J. Lloyd (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Hefyd yn bresennol:

Aelodau Cyfetholedig: Mr M. Western (Cynrychiolydd Comisiwn Addysg Archesgobaeth Eglwys Unionged Rwsia Caerdydd ), Mrs T. Millington (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwyr) a Mr G. James (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwyr)

### TREFNIADAU RECORDIO

Atgoffodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei recordio ac y byddai ar gael i'w gweld drwy wefan y Cyngor, ac eithrio trafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig. [Cliciwch yma i'w weld](#)

#### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr D. T. Hardacre, D. Havard, M. P. James, Mrs B. A. Jones, Mrs G. D. Oliver a Mr D. Davies (Cymdeithas Llywodraethwyr Caerffili).

#### 2. DATGANIAD O FUDDIANNAU

Ni chafodd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau eu derbyn ar ddechrau neu yn ystod y cyfarfod.

### **3. COFNODION – 17 MAI 2021**

PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ar 17 Mai 2021 (cofnodion rhif 1-8) fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

### **4. I YSTYRIED UNRHYW FATER A GYFEIRIWDYD AT Y PWYLLGOR CRAFFU YN UNOL Â'R WEITHDREFN GALW I MEWN**

Ni fu unrhyw fater a gyfeiriwyd at y Pwyllgor Craffu yn unol â'r weithdrefn galw i mewn.

### **5. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU DYSGU GYDOL OES**

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn amlinellu manylion Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg ar gyfer y cyfnod rhwng Mehefin 2021 a Mawrth 2022 ac roedd yn cynnwys yr holl adroddiadau a nodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ddydd Llun 17 Mai 2021. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y Flaenraglen Waith, ochr yn ochr â Blaenraglen Waith y Cabinet, cyn ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Cynigiwyd y dylid ychwanegu'r ddwy eitem ganlynol at Flaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg:

- (i) Adroddiad ar y gyfradd ymateb gan ysgolion pan ofynnwyd am gyflwyno adroddiadau i Baneli Maeth.
- (ii) Adroddiad diweddarau rheolaidd ar Gwricwlwm Newydd Cymru. Cafwyd cais hefyd i wahodd Penaethiaid i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Craffu.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, ac yn amodol ar yr adroddiadau ychwanegol a gynigiwyd, fe'i symudwyd a'i heiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhellion. Trwy ddefnydd pleidlais Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD bod Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor.

### **6. ADRODDIADAU CABINET**

Ni fu unrhyw adroddiad Cabinet a restrwyd ar yr agenda eu galw ymlaen i'w trafod yn y cyfarfod.

### **ADRODDIADAU GAN SWYDDOGION**

Ystyriwyd yr adroddiadau canlynol.

### **7. COMPENDIWM CYNHWYSIANT**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Ddysgu a Hamdden yr adroddiad i ymgynghori ag Aelodau ar y Compendiwm Cynhwysiant newydd a gofyn am eu barn cyn i'r Cabinet ei ystyried.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod yr adroddiad yn ymwneud â'r Compendiwm Cynhwysiant, sy'n cynnwys y Strategaeth Cynhwysiant yn ogystal ag ystod o ganllawiau a dogfennau annibynnol sy'n sail i'r strategaeth, ac sydd i'w defnyddio gan ysgolion, rhieni, Llywodraethwyr, Cyngorwyr a phartneriaid i helpu i'w weithredu a'i deall.

Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau bod y Strategaeth Gynhwysiant yn 'Strategaeth Wahardd' yn flaenorol, ond teimlwyd bod canolbwyntio ar 'waharddiadau' yn rhoi'r pwyslais anghywir. Dyna pam y mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar gynhwysiant, mae'n ymwneud â sicrhau bod cymaint â phosibl yn cael ei wneud i sicrhau bod pobl ifanc yn aros mewn addysg, a dim ond i ddefnyddio gwaharddiadau lle bo hynny'n gwbl angenrheidiol. Hysbyswyd yr Aelodau bod y Strategaeth yn cynnwys meithrin perthynas â phartneriaid fel ysgolion, y Gwasanaeth Ieuentid, y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA), Gwasanaethau Lles Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol ac eraill er mwyn sicrhau bod unrhyw faterion a allai ddatblygu yn cael eu nodi'n gynnar, a bod cymorth yn cael ei ddarparu. Tynnwyd sylw at y ffaith bod monitro a hunanarfarnu wedi'u cynnwys yn y Strategaeth a'r Compendiwm er mwyn sicrhau y gellir casglu a gwerthuso data. Mynegodd yr Aelod Cabinet dros Ddysgu a Hamdden diolch i'r Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion a'i thîm. Rhannodd yr Arweinydd Cynhwysiant ac ADY gyflwyniad gyda'r Pwyllgor Craffu ar y Compendiwm Cynhwysiant.

Croesawodd Aelod y Strategaeth ond amlinellodd bryderon ynghylch y ffordd y mae ysgolion yn rheoli plant sydd ag ymddygiad heriol. Teimlwyd y gall eu heriau gael effaith aflonyddgar ar blant eraill sy'n dysgu yn yr un amgylchedd. Pwysleisiodd yr Aelod bwysigrwydd cael cymorth ariannol digonol i ysgolion er mwyn gweithredu'r Strategaeth Cynhwysiant. Dywedodd yr Arweinydd Cynhwysiant ac ADY nad oedd ateb cyflym. Clywodd yr Aelodau sut yr oedd angen newid diwylliannol a sut y rhodddwyd pwyslais ar ymyrraeth gynnar ac ymgysylltu â phartneriaid. Tynnodd un Aelod, sy'n Llywodraethwr Ysgol, sylw at y gwaith da sy'n cael ei wneud yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ym maes cynhwysiant.

Nododd y Pwyllgor Craffu Addysg gynnwys yr adroddiad a rhoddodd eu barn fel rhan o'r broses ymgynghori.

## **8. STRATEGAETH NID MEWN ADDYSG, CYFLOGAETH NA HYFFORDDIANT**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Ddysgu a Hamdden yr adroddiad i ymgynghori ag Aelodau ar y Strategaeth Ymgysylltu a Datblygu (Nid mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant) newydd a materion cysylltiedig, a gofyn am eu barn cyn i'r Cabinet ei ystyried.

Hysbyswyd yr Aelodau bod y Strategaeth Ymgysylltu a Datblygu (Nid mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant) yn anelu at nodi trefniadau a bwriadau'r Cyngor i sicrhau bod pobl ifanc yn gallu symud ymlaen yn gadarnhaol i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ôl-16. Tynnwyd sylw at y ffaith bod y strategaeth hon yn cynnwys alinio strategaeth y Cyngor â chanllawiau lleol a chenedlaethol eraill, gan gynnwys y chwe blaenoriaeth a geir yn Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, sydd i'w gweld o dan adran 5.4 o'r adroddiad. Dywedwyd wrth yr Aelodau ei fod yn cynnwys dull gweithredu ar y cyd ar draws y gwahanol sefydliadau partner perthnasol i ddatblygu dealltwriaeth graff o pam nad yw pobl ifanc mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant neu a allai ddod felly, a'r canlyniadau. Mae'n nodi rolau a chyfrifoldebau amrywiol rhanddeiliaid y tu mewn a'r tu allan i'r Awdurdod Lleol, a phwyslais ar gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth. Mynegodd yr Aelod Cabinet dros Ddysgu a Hamdden ddiolch i'r Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion a Rheolwr y Gwasanaeth Ieuentid.

Amlygodd yr Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion fod y ddogfen yn cydnabod amrywiaeth o wendidau a all gyfrannu at ddisgybl yn wynebu risg o fod y tu allan i Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant ac yn manylu ar ddull hyblyg o sicrhau bod y llwybr at lwyddiant yn iawn.

Gofynnwyd cwestiwn ynghylch a ddarganfuwyd mwy o broblemau ymddygiad wrth drosglwyddo i Ysgolion Cyfun ai peidio. Amlinellodd yr Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion sut y gall pontio fod yn gyfnod heriol i ddisgyblion. Clywodd yr Aelodau sut yr oedd rôl i ysgolion o ran cynnig cymorth yn y maes hwn a sicrhau bod y sgiliau cywir yn cael eu datblygu er mwyn osgoi disgyblion rhag bod mewn perygl o fod y tu allan i Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant.

Nododd y Pwyllgor Craffu Addysg gynnwys yr adroddiad a rhoddodd eu barn fel rhan o'r broses ymgynghori.

## **9. CYTUNDEBAU LEFEL GWASANAETH**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Ddysgu a Hamdden yr adroddiad i roi trosolwg i'r Aelodau o'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth (CLGau) sydd ar gael i ysgolion a manylion am lefel y pryniant ar gyfer gwasanaethau mewnol yr Awdurdod, yn dilyn cais gan yr Aelodau am y wybodaeth hon.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod ystod eang o wasanaethau ar gael i ysgolion drwy drefniant CLGau, y manylir arnynt o dan adran 5.1 o'r adroddiad a hefyd wedi'i gynnwys yn yr atodiadau. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod ysgolion yn penderfynu a ydynt am brynu'r rhain pob blwyddyn ariannol. Yn y broses hon, gallant godi ymholiadau ac adolygu eu trefniadau. Hysbyswyd yr Aelodau bod ysgolion yn 2020/2021 wedi talu gwerth £2.4 miliwn am y cymorth a ddarparwyd yn rhai o'r CLGau hyn, ac mewn llawer o achosion mae lefel y pryniant ar 100%, a chyfeiriwyd at y dadansoddiad o hyn o dan atodiad 4 yr adroddiad. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y lefel hon o brynu yn rhagorol ac, ynghyd â'r cyfleoedd rheolaidd i ysgolion adolygu ac adborth ar wasanaethau, yn awgrymu eu bod yn llwyddiannus. Cyhoeddir cytundebau'n flynyddol a rhaid i wasanaethau barhau i ymateb i ddiwallu anghenion ysgolion er mwyn sicrhau bod y lefel hon o gymorth ar gyfer ein gwasanaethau mewnol yn parhau.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â'r gronfa galedi COVID-19, hysbysodd y Rheolwr Cyllid yr Aelodau mai'r cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru yw y bydd yn parhau hyd at ddiwedd mis Medi, a bod trafodaeth bellach yn mynd rhagddo gydag awdurdodau lleol a thrysoryddion, ond mae lefel o ansicrwydd ar ôl mis Medi.

Nododd y Pwyllgor Craffu Addysg cynnwys yr adroddiad.

## **10. GWEITHREDU CWRICWLWM NEWYDD I GYMRU**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Ddysgu a Hamdden yr adroddiad ac yna trosglwyddodd i Gyfarwyddwr Cynorthwyol y GCA i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am Weithredu Cwricwlwm i Gymru, yng nghyd-destun Pandemig COVID-19. Esboniwyd cynllun Fframwaith Cwricwlwm Cymru i'r Pwyllgor Craffu. Amlinellwyd dilyniant ac asesu yn Fframwaith ac asesu Cwricwlwm Cymru fel rhan o werthuso a gwella i'r Aelodau.

Cododd Aelod bryderon ynghylch y ddarpariaeth Gymraeg os yw'r fframwaith newydd yn rhoi mwy o hunanreolaeth a hyblygrwydd i ysgolion o ran y cwricwlwm. Dywedodd Cyfarwyddwr Cynorthwyol y GCA wrth yr Aelodau fod y Gymraeg yn elfen orfodol o dan fframwaith y cwricwlwm ac felly ystyriwyd ei bod yn cryfhau'r iaith mewn ysgolion.

Gofynnwyd am eglurhad a gwybodaeth bellach o ran asesu a gwerthuso. Tynnwyd sylw at y ffaith na fyddai gwybodaeth asesu dysgwyr yn cael ei defnyddio at ddibenion atebolrwydd a chodwyd cwestiwn ynghylch sut y bydd yr awdurdod lleol yn asesu a yw disgyblion yn datblygu a pha wybodaeth y dylid ei defnyddio i werthuso perfformiad ysgolion. Amlinellodd Cyfarwyddwr Cynorthwyol y GCA (Polisi a Strategaeth) yn amlinellu sut y byddai hyn yn her ar y cyd i'r holl bartneriaid, ac esboniodd sut y bwriadwyd defnyddio data ansoddol mwy meddal. Clywodd yr Aelodau sut yr oedd ansawdd arweinyddiaeth ysgolion o'r pwys mwyaf yn hyn o beth.

Mewn ymateb i gwestiwn a fyddai ESTYN yn cymryd rôl amlycach yn y dyfodol, nododd Cyfarwyddwr Cynorthwyol y GCA (Polisi a Strategaeth) nad oedd Fframwaith ESTYN wedi newid ar hyn o bryd. Clywodd yr Aelodau sut y defnyddiwyd data a safonau caled yn bennaf

o dan fframweithiau blaenorol, ond o dan yr asesiad fframwaith presennol roedd yn seiliedig mwy ar ansawdd y gwaith yn llyfrau disgyblion a'r cynnydd a ddangoswyd ar eu taith.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.39 p.m.

Cymeradwywyd fel cofnod cywir, ac yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau y cytunwyd arnynt ac a gofnodwyd yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi 2021, fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

---

CADEIRYDD